Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Cymunedau**
Dyddiad y cyfarfod	**21 Hydref 2021**
Aelod/Swyddog Arweiniol	**Y Cyng. Brian Jones: Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd / Tony Ward: Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol**
Awdur yr adroddiad	**Wayne Hope**
Teitl	**Cyfrifoldebau Rheoli'r Perygl o Lifogydd mewn perthynas â Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn yn draenio rhannau mawr o'r Rhyl a Phrestatyn ac yn allweddol i ddiogelu miloedd o gartrefi a busnesau rhag llifogydd. Yn rhan o brosiect cydweithredol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gyda chefnogaeth Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) a Dŵr Cymru (DC), wedi cynnal astudiaeth modelu llifogydd, wedi creu adroddiad rheoli dalgylch ac wedi datblygu cynllun cynnal a chadw manwl ar gyfer y ddau gwrs dŵr.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Cyflwyno casgliadau'r astudiaeth ar y cyd, dan arweiniad CNC, i ystyried a ellid gwneud gwelliannau i'r drefn o reoli Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn, y draeniau a'r carthffosydd cyfagos, ac amlinellu cyfrifoldebau pob sefydliad mewn perthynas â rheoli llifogydd a lliniaru llifogydd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod aelodau'r Pwyllgor yn rhoi sylwadau ac adborth ynglŷn â chynnwys yr adroddiad hwn a'r atodiadau.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Ar ôl y llifogydd a effeithiodd ar rannau o'r Rhyl a Phrestatyn ym mis Gorffennaf 2017, cychwynnodd CNC adolygiad ar hydroleg a threfn reoli a chynnal a chadw Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn, sy'n cael eu cyfrif yn gyrsiau dŵr "prif afon". Cytunodd CSDd a DC i gefnogi CNC â'r prosiect, a fydd hefyd, gobeithio, yn rhoi gwell dealltwriaeth ynglŷn â sut mae asedau pob sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd, yn enwedig pan mae glaw trwm.

4.2. Cynhaliwyd y prosiect mewn tri cham.

i. Roedd Cam 1 yn cynnwys astudiaeth i fodelu'r perygl o lifogydd, er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i CNC am hydroleg dalgylchoedd yr afonydd.

ii. Roedd Cam 2 wedi arwain at adroddiad rheoli dalgylch, a oedd yn cynnig trosolwg eang o'r drefn o reoli Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn a'r ardaloedd o amgylch y ddau gwrs dŵr.

iii. Mae Cam 3 hefyd wedi adeiladu ar yr argymhellion yn adroddiad rheoli Cam 2 ac wedi cynnwys trafodaethau â thimau cynnal a chadw gweithredol CNC i ystyried effeithiau'r gwaith cynnal a chadw mewn gwahanol is-rannau o'r cyrsiau dŵr. Fodd bynnag, mae rhywfaint o waith eto i'w wneud o ran llunio cynllun cynnal a chadw a rheoli cynhwysfawr a bydd angen ymgynghori â'r cyhoedd a budd-ddeiliaid i wneud hyn.

4.3 Mae CNC wedi llunio nodyn briffio ac adroddiad trosolwg ar gyfer y prosiect, fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ar 21ain Hydref 2021.

4.4 Cyflwynodd Aelod Seneddol Dyffryn Clwyd, Dr James Davies AS, ddeiseb i Senedd y DU ar 14 Gorffennaf 2021, yn galw am gyflwyno rhaglen gynnal a chadw sector cyhoeddus lawn i reoli Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn (https://www.jamesdavies.org.uk/news/rhyl-cut-and-prestatyn-gutter-petition-presented-parliament).

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Un o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017-2022 yw darparu amgylchedd deniadol sydd wedi'i amddiffyn, ac sy'n cefnogi lles a ffyniant economaidd. Un o'r mesurau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol i alluogi hyn yw

lleihau nifer y tai sydd mewn perygl o lifogydd yn Sir Ddinbych. Mae cefnogaeth y Cyngor i'r prosiect, a'r gwaith sydd wedi'i wneud ar y cyd â CNC a DC i ddatblygu gwell dealltwriaeth o waith rheoli a chynnal a chadw rhag perygl llifogydd yn Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn, wedi helpu i gyflawni hyn.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r prosiect yn annhebygol o arwain at unrhyw newidiadau sylweddol i weithgareddau presennol y Cyngor, felly mae unrhyw gostau o ganlyniad yn debygol o fod yn isel iawn. Ni fydd effaith ar wasanaethau eraill. Fodd bynnag, byddai unrhyw weithgareddau cynnal a chadw ychwanegol, fel y rhai a awgrymwyd gan y ddeiseb ddiweddar i'r Senedd (gweler adran 4.4. yn yr adroddiad hwn), wedi arwain at oblygiadau sylweddol i gyllideb y Cyngor a gallai osod cynsail i gyrsiau dŵr eraill yn y sir.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio yn bennaf at faterion sydd y tu hwnt i awdurdodaeth y Cyngor, felly ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Yn rhan o'r prosiect, fe wnaeth CNC ymgynghori ag aelodau'r cyhoedd, cynghorwyr tref a chymuned, aelodau Lleol, ASau lleol Senedd Cymru a Senedd y DU (presennol a blaenorol), budd-ddeiliaid perthnasol a phartneriaid proffesiynol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Fel y nodwyd yn Adran 6, nid yw'r prosiect yn debygol o arwain at unrhyw newidiadau sylweddol i weithgareddau cyfredol y Cyngor, felly mae'n debygol y bydd unrhyw gostau canlyniadol yn fach iawn a dylid eu cynnal o fewn y cyllidebau refeniw presennol. Bydd unrhyw waith ychwanegol yn ddarostyngedig i weithdrefnau cymeradwyo arferol y Cyngor os bydd angen.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau sylweddol i'r Cyngor o ganlyniad i'r prosiect.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae gan y Cyngor bwerau mewn perthynas â pherygl llifogydd a materion sy'n ymwneud â draenio dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) a'r Ddeddf Draenio Tir (1991).

11.2. Mae pwerau'r Pwyllgor o ran datblygu ac adolygu polisi a chraffu ar berfformiad y Cyngor a chyrff cyhoeddus eraill, wedi'u hamlinellu yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4 o Gyfansoddiad y Cyngor.